Cardiff University | Prifysgol Caerdydd
Centre for Medical Education
Canolfan Addysg Feddygol
how to:
Medical Education @ Cardiff 2024
Category: Learning

# Sut i ddefnyddio'r modelau 'Dysgwr Addasol Meistr' ac 'Ymchwiliad Gwerthfawrogol' i annog dysgu gydol oes

Mohammed Bakheet, Faris Hussain, Rachel Jones, and Joy McFadzean

**Categori: Dysgu**

**Trosolwg**

Mae systemau gofal iechyd yn esblygu'n gyson, a rhaid i weithwyr meddygol proffesiynol fod yn barod i addasu, newid a bod yn ddysgwyr gydol oes. Mae mentoriaid a goruchwylwyr addysgol mewn sefyllfa unigryw i helpu myfyrwyr a hyfforddeion i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ddod yn Ddysgwyr Addasol Meistr, gan eu cefnogi yn ystod eu taith ddysgu i ddatblygu strategaethau dysgu gydol oes. Mae'r canllaw 'Sut i' hwn yn cyflwyno'r model Dysgwr Addasol Meistr (Cutrer et al. 2017) gyda'r nod o ddisgrifio sut y gellir ei ddefnyddio i helpu gweithwyr meddygol proffesiynol i ddod yn ddysgwyr gydol oes gan ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r Model Ymchwiliad Gwerthfawrogol (Sandars 2017).

## Y Dysgwr Addasol Meistr

Mae Dysgwyr Addasol Meistr yn unigolion sydd â'r gallu i ddatblygu meistrolaeth mewn maes penodol a'r arbenigedd addasol i ddysgu a thyfu'n barhaus trwy gydol eu gyrfaoedd (Cutrer et al. 2017). Mae'r model Dysgwr Addasol Meistr yn cynnwys pedair prif gydran:

- Cynllunio: Mae hyn yn cynnwys archwilio bwlch gwybodaeth, ceisio darganfod pam mae'r bwlch hwnnw'n bodoli, a gosod nodau i ddeall yr hyn sydd ar goll o'u sylfaen wybodaeth. Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried ble a sut y gallant lenwi'r bwlch dysgu (e.e. drwy gynnal eu hymchwil eu hunain neu siarad â chyfoedion ac arbenigwyr).

- Dysgu: Mae hyn yn cynnwys arfarnu'n feirniadol unrhyw adnoddau a gasglwyd yn ystod y cyfnod cynllunio. Mae hefyd yn annog y defnydd o strategaethau dysgu effeithiol, megis dysgu ailadroddus bylchog, yn hytrach na thechnegau gwthio, a all fod yn llai effeithiol ar gyfer dysgu addasol.


- Asesu: Mae'r cam hwn yn cynnwys gweithredu'r sgil neu'r wybodaeth yr ymchwiliwyd iddi yn ymarferol, myfyrio arni a dechrau ei defnyddio'n ymarferol. Yna gall y dysgwr symud ymlaen i'r cam 'Addasu' unwaith y byddant yn gyfforddus ac yn hyderus gyda'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

- Addasu: Dyma'r defnydd o'r sgil neu'r wybodaeth o fewn ymarfer dyddiol i reoli cleifion. Bydd fel arfer yn canolbwyntio ar newid neu ddysgu ar lefel system, yn hytrach na newid ar gyfer unigolyn yn unig.

Mae annog dysgwyr i ymgymryd â'r cylchoedd hyn yn barhaus drwy gydol eu gyrfa, yn enwedig wrth wynebu materion, pynciau neu broblemau newydd, yn sicrhau eu bod yn ymdrechu'n gyson i ddysgu. Mewn cydweithrediad â'r Model Addasol Meistr, efallai y bydd angen i ddysgwyr gydol oes fyfyrio ar eu perfformiad a dilysu eu dysgu. Er bod sawl ffordd wahanol i fentor neu oruchwyliwr addysgol gefnogi'r dysgwr gyda hyn, mae'r Model Ymchwiliad Gwerthfawrogol yn offeryn cynhwysfawr a all gefnogi myfyrdod o'r fath.

## Ymchwiliad Gwerthfawrogol

Diffinnir Ymchwiliad Gwerthfawrogol (YG) fel proses sy'n annog dysgu dyfnach ac yn creu newid cadarnhaol i unigolion a sefydliadau (Sanders a Murdoch-Eaton, 2017). Mae'r Model Ymchwiliad Gwerthfawrogol yn cynnwys pum cam y cyfeirir atynt fel 'y 5 D' yn Saesneg [Ffigur 1]. Mae'r model yn canolbwyntio ar elfennau cadarnhaol o fyfyrio, cynllunio, a sut y gall y dysgwr greu a gweithredu newid blaengar i'r sefyllfa, gan greu cylch o ddysgu rhywbeth newydd a'i ddefnyddio yn eu gwaith bob dydd. Mae'n enghraifft o sut y gall addysgwyr dywys eu dysgwyr i ddefnyddio YG, gan ganolbwyntio ar ddull cadarnhaol sy'n seiliedig ar ganlyniadau.




Ffigur 1. Model Ymchwiliad Gwerthfawrogol

## Cymhwyso YG i Gefnogi Datblygiad Dysgu Gydol Oes

*Diffinio - Egluro'r ffocws*: Wrth weithio fel goruchwyliwr, byddwch yn cwrdd â myfyriwr meddygol mewn cyfarfod goruchwylio cychwynnol. Wrth drafod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus, maent yn diffinio eu nod o'r lleoliad hwn fel yr angen i wella eu sgiliau ymarferol o ran asesu cleifion ac maent wedi nodi meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt. Maent yn lleisio eu bwriad i wella eu galluoedd yn y meysydd hyn ar gyfer gofal cleifion cynhwysfawr, gan ddeall pa mor bwysig yw'r sgiliau hyn ar gyfer eu gyrfa yn y dyfodol yn gweithio fel meddygon iau.

*Darganfod - Gwerthfawrogi'r gorau mewn bywyd*: Maent yn dechrau archwilio eu cryfderau a'u profiadau cadarnhaol wrth asesu cleifion, gan ofyn am fewnbwn gan eu mentoriaid, cyfadran neu gyfoedion, a myfyrio ar berfformiadau archwiliadau ffurfiol a'r amser sydd eisoes wedi'i dreulio gyda chleifion ar leoliadau clinigol blaenorol.

*Breuddwyd – Beth allai'r canlyniadau fod?* Maent yn dechrau breuddwydio am eu dyfodol ar ôl iddynt wella eu sgiliau asesu cleifion. Maent am gynnal asesiadau trylwyr ac effeithlon, cyfathrebu'n effeithiol â chleifion, a nodi canfyddiadau allweddol yn gywir, ac maent yn deall mai dim ond trwy ddysgu parhaus y gallant gyflawni hyn.

*Dylunio – Cyd-adeiladu'r ddelfryd*: Mae'r myfyriwr yn dylunio cynllun i bontio'r bwlch rhwng sgiliau cyfredol a'r sgiliau y maent yn eu rhagweld, gan ystyried strategaethau, adnoddau a chyfleoedd dysgu. Maent yn gosod nodau realistig ac yn eu torri i gamau gweithredu wrth ystyried rhwystrau, gan geisio cefnogaeth gan eu goruchwyliwr pan fo angen.

*Tynged – Cynnal y newidiadau hyn*: Maent yn ystyried ble y gallant barhau i ddysgu'r pwnc hwn a nodi eu cyfleoedd nesaf i ddysgu. Maent yn cydnabod y gellir cymhwyso'r model hwn i unrhyw ddysgu mewn modd syml a dilyniannol i ddod yn ddysgwyr gydol oes cynhwysfawr.

Wrth ystyried y ffordd orau o gefnogi eu dysgwyr, gall goruchwyliwr ystyried pa awgrymiadau a chwestiynau i'w gofyn i fyfyrwyr i'w helpu i symud drwy'r 5 D [Tabl 1].

**Tabl 1. Enghraifft o sut y gall goruchwylwyr ddefnyddio'r model YG.**

| Phase | Examples |
|---|---|
| **Diffinio** | Mae'n bwysig gofyn i'r dysgwr ddiffinio eu nod, gan roi datganiadau enghreifftiol iddynt am yr hyn y maent am ei gyflawni a pham:<br><br>***Datganiad enghreifftiol:***<br>*"Rydw i am wella fy sgiliau asesu cleifion trwy wella fy sgiliau cofnodi hanes, technegau archwilio corfforol a sgiliau cyfathrebu er mwyn sicrhau diagnosis cywir a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf."* |
| **Darganfod** | Rôl y goruchwyliwr wedyn yw annog y myfyriwr i ganolbwyntio ar eu perfformiad blaenorol, gan ystyried darganfod:<br><br>***Cwestiynau enghreifftiol:***<br>• *"Allwch chi gofio adeg pan gawsoch chi adborth cadarnhaol ar eich sgiliau asesu cleifion?"*<br>• *"Pa gryfderau penodol sydd gennych chi wrth gofnodi hanes, cynnal archwiliad corfforol neu gyfathrebu?"*<br>• *"Sut mae eich cryfderau o ran asesu cleifion wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau neu brofiadau cleifion?"* |
| **Breuddwydio** | Yma byddai'n ddefnyddiol gofyn iddynt beth maen nhw'n rhagweld fydd yn digwydd a rhai ymatebion myfyriol posibl:<br><br>***Cwestiwn enghreifftiol:***<br>• Beth yn benodol fyddech chi'n gobeithio ei weld neu gyflawni?<br><br>**Ymatebion enghreifftiol:**<br>• *"Rwy'n rhagweld fy hun yn cynnal asesiadau cynhwysfawr o gleifion yn hyderus ac yn nodi canfyddiadau hanfodol yn gywir."*<br>• *"Rwy'n dychmygu meithrin perthynas gref â chleifion trwy gyfath rebu'n effeithiol yn ystod asesiadau."*<br>• *"Rwy'n breuddwydio am ddarparu gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar y claf trwy integreiddio fy sgiliau datblygedig i ymarfer clinigol."* |
| **Dylunio** | Gall goruchwyliwr gefnogi'r dysgwr drwy awgrymu arferion \ cyraeddadwy a dichonadwy:<br><br>***Awgrymiadau enghreifftiol:***<br>• *Eu bod yn cofrestru ar gwrs neu weithdy asesu cleifion arbenigol i ddysgu technegau a gwybodaeth lefel uwch.*<br>• *Chwilio'n rheolaidd am fentoriaeth neu gysgodi clinigwyr profiadol sy'n adnabyddus am eu sgiliau asesu cleifion eithriadol.*<br>• *Ystyried sut i ymarfer sgiliau asesu cleifion yn rheolaidd drwy gyfarfodydd cleifion efelychiadol neu ymarferion chwarae rôl gyda chyfoedion.*<br>• *Cael adborth gan fentoriaid, cyfadran neu gleifion safonedig i gael mewnwelediadau ar gyfer gwella.* |
| **Tynged** | Gellir wedyn adolygu a monitro cynnydd y dysgwr mewn sawl ffordd:<br><br>***Enghreifftiau o fonitro:***<br>• *Adolygu'r adborth o unrhyw gyrsiau neu weithdai asesu cleifion lle maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn gweithgareddau dysgu.*<br>• *Ystyried eu hymgysylltiad mewn cylchdroadau clinigol a sut maent yn chwilio am gyfleoedd i ymarfer sgiliau asesu cleifion.*<br>• *Darllen eu myfyrdodau personol yn barhaus ynghylch eu profiadau a sut maen nhw wedi gofyn am adborth gan fentoriaid, cyfadran a chyfoedion.*<br>• *Cydnabod eu cyflawniadau a'u cerrig milltir ar hyd y daith o ddatblygu sgiliau.* |

## Casgliad

Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ymdrechu i barhau i ddysgu drwy gydol eu gyrfa, ac mae'r canllaw hwn wedi tynnu sylw at sut y gall y ddau fodel 'Dysgwr Addasol Meistr' ac 'Ymchwiliad Gwerthfawrogol' gefnogi hyn. Mae'r dull pwrpasol hwn ar gyfer y myfyriwr a'r gefnogaeth i'w helpu i ddefnyddio'r model YG yn anelu at greu sylfaen dda a pherthynas gefnogol â dysgu parhaus. Mae'r defnydd o'r Model Ymchwiliad Gwerthfawrogol a'r Model Dysgu Addasol Meistr yn helpu i gefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â phroblemau newydd yn barhaus a gwella eu hymarfer eu hunain. Dylai goruchwylwyr a dysgwyr ystyried dysgu cynaliadwy a gydol oes a sut y gall hyn ddigwydd mewn addysg feddygol, a gallai'r enghreifftiau yn y canllaw hwn helpu'r dysgwr a'r addysgwr i ymgysylltu â hyn.

## Darllen Pellach


Blewitt, J. 2006. *The ecology of learning: sustainability, lifelong learning and everyday life*. Earthscan.

Cutler, W. et al. 2017. Fostering the development of master adaptive learners: a conceptual model to guide skill acquisition in medical education. *Academic Medicine 9(*1), pp.70-75.

Mylopoulos, M. and Regehr, G. 2007. Cognitive metaphors of expertise and knowledge: prospects and limitations for medical education. *Medical Education*. 41, pp.1159-1165.

Sandars, J. and Murdoch-Eaton, D., 2017. Appreciative inquiry in medical education. *Medical Teacher* 39(2), pp.123-127.

## Awduron

Yn nhrefn y wyddor:

**Mr Mohammed Bakheet**

Cydlynydd Hyfforddiant ac Addysgwr Efelychu yng Nghanolfan Hyfforddiant ac Ymchwil Feddygol y Tywysog Brenhinol, Bahrain.

**Dr Faris Hussain**

Cymrawd Addysgu Clinigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Darlithydd Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd, Cymru.

**Dr Rachel Jones**

Hyfforddai ACCS mewn Meddygaeth Frys a Darlithydd Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd, Cymru.

**Dr Joy McFadzean**

Meddyg Teulu a Meddyg-Ddarlithydd Clinigol yn yr Is-adran Meddygaeth Boblogaeth, Prifysgol Caerdydd, Cymru.

**Interested in learning more about this and other educational topics?**

Why not professionalise your role with an academic qualification at PGCert, Dip or MSc in Medical Education via e-learning or attendance courses.

Attendance-based MSc Med Ed (Full time or Part time)

e-learning MSc Med Ed (Part time)

Contact: medicaleducation@cardiff.ac.uk

***Series Editor***

**Professor Michal Tombs** Reader in Medical Education, Academic Section PGT Medical Education, C4ME, School of Medicine, Cardiff University

***Series Co-Editor***

**Dr Rebecca Williams** Lecturer in Medical Education, C4ME, School of Medicine, Cardiff University

**Centre for Medical Education (C4ME)**
School of Medicine, Cardiff University, 9th Floor Neuadd Meirionnydd, Heath Park, Cardiff CF14 4YS
Tel: +44(0)29 2068 7451 E-mail: medicaleducation@cardiff.ac.uk
ISBN: 978-1-907019-98-2